# Pwyllgor Rheoli Datblygu

## 5 Mehefin 2024

Yn bresennol (yn bersonol)
Dr M Havard (Cadeirydd)
Cynghorydd M Bowen, Cynghorydd D Clements, Dr R Heath-Davies, Cynghorydd R Jordan, Cynghorydd M James, Mr GA Jones, Cynghorydd V Thomas, Cynghorydd M Wiggins a'r Cynghorydd C Williams BEM.

[Cyrhaeddodd y Cynghorydd S Alderman cyn ystyriaeth o eitem 7e) NP/24/0119/MOD ]

Yn bresennol (yn rhithiol)
Mrs S Hoss, Mrs J James, Cynghorydd B Price, Cynghorydd S Skyrme-Blackhall,

Swyddogion yn bresennol
Mr C Felgate (Cyfreithiwr), Mr J Kent (Swyddog Monitro), Mrs S Morris (Cyfarwyddwr Creu Lleoedd, Dadgarboneiddio ac Ymgysylltu), Mrs K Attrill, (Rheolwr Rheoli Datblygu), Ms B Gledhill, Mr R James, Mr J Houser, Mr A Richards (yn rhithiol) (Tîm Cynllunio), Mrs C Llewellyn (Cofnodion)

[Parc Llanion, Doc Penfro a Rhithiol 10.00am – 11.35am;
11.40am -12.55pm; 1.30pm - 2.00pm]

**1. Croeso a Diolch**

Croesawyd y Cynghorydd M Bowen i'w chyfarfod cyntaf o'r Pwyllgor gan y Cadeirydd a nodwyd ei bod wedi cymryd lle'r Cynghorydd A Wilcox ar yr Awdurdod. Diolchwyd i'r Cynghorydd Wilcox am ei gyfraniadau dros nifer o flynyddoedd. Nodwyd hefyd y byddai'r Cynghorydd R Jordan yn gadael yr Awdurdod cyn y CCB a diolchwyd iddo yntau hefyd am ei gyfraniadau.

**2. Ymddiheuriadau**

Derbyniwyd ymddiheuriadau am eu habsenoldeb wrth y Cynghorydd Dr SL Hancock MBE, y Cynghorydd PJ Morgan, a Dr RM Plummer. Roedd y Cynghorydd S Alderman wedi rhybuddio y byddai'n hwyr yn cyrraedd.

3. **Datgelu buddiant**

Datgelodd yr Aelod(au)/Swyddog(ion) canlynol yn y cais (ceisiadau) a/neu'r mater (ion) y cyfeirir atyn nhw isod:

| **Cais a Chyfeirnod** | **Aelod(au)** | **Gweithred** |
|---|---|---|
| Cofnodion 7(b) isod<br>NP/24/0140/FUL - Cais cynllunio ôl-weithredol ar gyfer gwaith ail-broffilio ar dir i'r de o Chwarel Caeriw, i gynnwys dau treidd-dwll monitro dros dro - tir i'r de o Chwarel Caeriw (Cae Criced), Caeriw Newton, | Cynghorydd V Thomas | Aros yn y cyfarfod a phleidleisio ar y cynnig. |
| Cofnodion 7(c) isod<br>NP/24/0081/FUL - Cais ôl-weithredol ar gyfer adeilad lles amaethyddol – Fferm Trewern, Felindre Farchog, Crymych | Cynghorydd M James | Aros yn y cyfarfod a chwarae rhan lawn yn y trafodaethau a'r pleidleisio. |
| Cofnodion 7(d) isod<br>NP/24/0206/FUL - Storfa Maethynnau a Gwaith Cysylltiedig – Trewern, Felindre Farchog, Crymych | Cynghorydd M James | Aros yn y cyfarfod a chwarae rhan lawn yn y trafodaethau a'r pleidleisio. |
| Cofnodion 7(e) isod<br>NP/24/0119/MOD – Addasiad o atodlen 2 (tai fforddiadwy) yn ymwneud â Chytundeb Adran 106 – tir oddi ar Stryd Non ac i'r dwyrain o Ysgol Gynradd Dewi, Tyddewi | Cynghorydd B Price | Aros yn y cyfarfod a chwarae rhan lawn yn y trafodaethau a'r pleidleisio. |
| Cofnodion 7(g) isod<br>NP/23/0600/ADV - Gosod panel deunydd esboniadol a chynllun/tirwedd/cynefin – Maes Awyr Tyddewi, Ffos y Mynach, Tyddewi | Cynghorydd B Price | Aros yn y cyfarfod a chwarae rhan lawn yn y trafodaethau a'r pleidleisio. |
| Cofnodion 7(j) isod<br>NP/24/0198/FUL Adeiladu a newid defnydd yn ganolfan antur awyr agored, a stiwdio gelf a lle storio uwchben, a gwaith cysylltiedig – The Old Bus Depot, Trewyddel, | Cynghorydd M James | Aros yn y cyfarfod a chwarae rhan lawn yn y trafodaethau a'r pleidleisio. |

**4. Cofnodion**

Cafodd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Ebrill 2024 eu cyflwyno i'w cadarnhau a'u llofnodi.

Yn dilyn cynnig gan y Cynghorydd Clements, wedi'i eilio gan Dr Heath-Davies, **penderfynwyd** cadarnhau a llofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Ebrill 2024.

**Nodwyd.**

5. **Dyletswyddau'r Aelodau wrth Benderfynu Ceisiadau**

Roedd adroddiad y Cyfreithiwr yn crynhoi swyddogaeth y Pwyllgor oddi fewn i'r gyfundrefn gynllunio, gyda phwyslais penodol ar amcanion a dyletswydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol. Roedd yn mynd yn ei flaen i amlinellu pwrpas y gyfundrefn gynllunio ac ystyriaethau perthnasol wrth benderfynu, ac ychwanegodd y Cyfreithiwr bod angen rhoi ystyriaeth hefyd i'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol - Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040 a fabwysiadwyd gan Lywodraeth Cymru ar 24 Chwefror 2021 yn ogystal â'i Gynllun Datblygu Lleol 2 ei hun. Roedd yr Adroddiad hefyd yn nodi bod gan yr Awdurdod ddyletswydd hefyd i gyflawni datblygiad cynaliadwy, ystyriaethau ecolegol oedd yn cynnwys swyddogaeth Deddf Amgylchedd Cymru 2016, ystyriaethau hawliau dynol, canllawiau'r Awdurdod i aelodau ynghylch penderfyniadau yn y Pwyllgor, a hefyd yn gosod allan rhai amgylchiadau lle gellid gosod costau yn erbyn yr Awdurdod mewn apêl. Yn olaf, ychwanegodd y Cyfreithiwr nad oedd yr adroddiad yn dweud bod penderfyniadau'r Awdurdod yn agored i gael eu scrwtineiddio a'u gosod o dan adolygiad barnwrol ac roedd felly yn bwysig eu bod wedi'u seilio ar y gyfraith.

**Nodwyd.**

6. **Hawl i siarad yn y Pwyllgor**

Hysbyswyd yr Aelodau gan y Cadeirydd bod rhybuddion priodol (cyn y dyddiad sydd wedi ei nodi) wedi dod i law oddi wrth bartïon a oedd yn dymuno defnyddio eu hawl i siarad yn y cyfarfod y diwrnod hwnnw. Yn unol â phenderfyniad Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Rhagfyr 2011, wedi'i ddiwygio 16 Mehefin 2021, rhoddir yr hawl i siaradwyr i annerch am bum munud oni bai eu bod wedi siarad ar yr un cais cynt pan roddir tri munud iddyn nhw i gyflwyno gwybodaeth o'r newydd. *(mae'r partïon oedd â diddordeb wedi'u rhestru isod gyferbyn â'u cais (ceisiadau) penodol, ac yn y drefn y buon nhw'n cyfarch y Pwyllgor):*

| Reference number | Proposal | Speaker |
|---|---|---|
| NP/24/0081/FUL Cofnod 7(c) cyfeir | Cais ôl-weithredol ar gyfer adeilad lles amaethyddol – Fferm Trewern, Felindre Farchog, Crymych, Sir Benfro, SA41 3XE | Wyn Harries – Asiant |
| NP/24/0206/FUL Cofnod 7(d) cyfeir | Storfa Maethynnau a Gwaith Cysylltiedig – Trewern, Felindre Farchog, Crymych, Sir Benfro SA41 3XE | Wyn Harries – Asiant |
| NP/24/0155/FUL Cofnod 7(f) cyfeir | Newid defnydd tir dros dro i gadw sauna symudol - Harbwr Saundersfoot, Saundersfoot, Sir Benfro, SA69 9HE | Bryony Rees – Ymgeisydd |

7. **Adroddiad Ceisiadau Cynllunio**
Bu'r Pwyllgor yn ystyried adroddiadau manwl yr Arweinydd Tîm Rheoli Datblygu, ynghyd ag unrhyw ddiweddariadau a adroddwyd ar lafar ar y diwrnod ac sydd wedi'u cofnodi isod. Penderfynodd y Pwyllgor y ceisiadau yn y modd canlynol (*nodir y penderfyniad ynghylch pob un yn dilyn y manylion a nodir am y cais perthnasol*):

(a) Cyfeirnod: NP/22/0672/FUL
Ymgeisydd: Ventura Properties (Saundersfoot) Limited
Cynnig: Dymchwel ac adeiladu datblygiad preswyl newydd aml-ddefnydd (Defnydd Dosbarth C3) a masnachol hyblyg (Defnydd Dosbarthau A1, A2, A3) sy'n cynnwys datblygiad preswyl gan gynnwys rhandai a thai-tref, man amwynder, seilwaith draenio, tirweddu, llefydd parcio a gwelliannau mynediad a datblygiadau cysylltiedig

Lleoliad: Tir y tu ôl i Westy'r Cambrian, Stryd Milffwrd, Saundersfoot, SA69 9ER

Adroddwyd bod y cais hwn wedi'i dynnu nôl gan yr ymgeisydd.

**Nodwyd.**

[Wrth ystyried y cais canlynol daeth yn amlwg fod yna broblemau o ran ffrwd byw y cyfarfod. Yn dilyn cynnig gan y Cynghorydd Clements, wedi'i eilio gan y Cynghorydd Jordan, **penderfynwyd** y dylai'r cyfarfod fynd ei

flaen, ond y byddai recordiad ohono yn cael ei osod ar wefan yr Awdurdod wedyn.]

(b) Cyfeirnod: NP/24/0140/FUL
Ymgeisydd: A and C Aggregates
Cynnig: Cais cynllunio ôl-weithredol ar gyfer gwaith ail-broffilio ar dir i'r de o Chwarel Caeriw, i gynnwys dau treidd-dwll monitro dros dro
Lleoliad: Tir i'r de o Chwarel Caeriw (Cae Criced), Caeriw Newton, Cilgeti, Sir Benfro, SA68 0TR

Adroddwyd bod y cynnig hwn yn ymwneud ag ail-broffilio cae amaethyddol, yn ôl-weithredol, mewn tirlun hynod o sensitif. Roedd nifer o wrthwynebiadau wedi dod i law ac roedd y rhain wedi'u hamlinellu a'u hateb yn yr adroddiad gerbron y Pwyllgor.

Roedd y cais yn codi materion cynllunio yn ymwneud â'r egwyddor o Ddatblygu; effaith ar Nodweddion Arbennig y Parc Cenedlaethol; Mwynder a Hawliau Tramwy Cyhoeddus; Bioamrywiaeth a Seilwaith Gwyrdd; Perygl Llifogydd a Draenio.

Roedd adroddiad y swyddog yn gosod allan mewn manylder ystyriaeth o'r polisïau perthnasol sydd yn y Cynllun Datblygu (Dyfodol Cymru, Cynllun Datblygu Lleol 2 a Chyfarwyddyd Cynllunio Ychwanegol cysylltiedig) a Pholisi Cynllunio Cenedlaethol ar ffurf Polisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 12) a Nodyn Cyngor Technegol (NCT) 24, oll yn statudol. Daethpwyd i'r casgliad nad oedd tystiolaeth o weddillion archeolegol wedi dod i'r golwg oddi fewn i'r safle, ac roedd yr effeithiau tebygol ar asedau hanesyddol yn cynnwys gosod Adeiladau Rhestredig, Henebion ac Ardal Gadwraeth Caeriw gerllaw, yn cael eu hystyried yn dderbyniol. Byddai ail-broffilio'r tir yn arwain at ffurf ddirweddol dderbyniol pan fyddai wedi'i gwblhau a'r glaswellt wedi tyfu.

Yn amodol ar osod amodau priodol o ran rheolaeth silt a chreu byffer yn ogystal â mwy o blannu ar hyd y cloddiau ffin, ystyrid bod y cynnig yn cydymffurfio â gofynion polisïau cynllunio lleol a chenedlaethol, gan arwain at ffurf o ddatblygiad oedd yn dderbyniol.

Doedd Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd terfynol ddim eto wedi'i gytuno gyda Chyfoeth Naturiol Cymru (CNC) ac felly gofynnid am ddirprwyo penderfynu'r cais yn amodol ar eu cytundeb hwy a'r Awdurdod wedyn yn cwblhau'r Asesiad Priodol. Cynghorodd y Cyfreithiwr y dylai dirprwyo cwblhau'r Asesiad Priodol hefyd gael ei chwennych.

Nododd yr adroddiad bod nifer o wrthwynebiadau wedi dod i law o ran gwaredu coed ar hyd ochr ogleddol y safle ond doedd y rhain ddim yn

rhan o’r tir oedd yn ymwneud â’r cais cynllunio. Roedd cais ar wahân a chyfredol wedi’i gyflwyno i’r Awdurdod mewn cysylltiad â’r chwarel a byddai adroddiad ynghylch y cais hwnnw, a fyddai’n rhoi ystyriaeth i fater colli coed, yn cael ei ystyried gan y Pwyllgor Rheoli Datblygu mewn cyfarfod i ddod. Cytunodd y Cyfreithiwr a chynghorodd na ddylai’r ystyriaethau hyn fod yn rhan o benderfynu’r cais oedd gerbron y Pwyllgor y diwrnod hwnnw.

Cynghorodd y swyddogion nad oedd ymateb wedi’i dderbyn wrth Swyddog Adeiladau Hanesyddol Cyngor Sir Penfro ers ysgrifennu’r adroddiad, ond roedd swyddogion yr Awdurdod wedi gwerthuso effaith y datblygiad ar Ardal Gadwraeth Caeriw gan ddod i’r casgliad ei fod yn dderbyniol. Fodd bynnag, roedd Datganiad Seilwaith Gwyrdd wedi dod i law wrth yr ymgeiswyr, ond dim ond y bore hwnnw, a doedd y swyddogion ddim wedi cael cyfle i’w asesu. Awgrymwyd felly y dylai unrhyw benderfyniad i ddirprwyo cymeradwyo hefyd gynnwys rhoi cymeradwyaeth ffurfiol i’r Datganiad Seilwaith Gwyrdd.

Nododd y Cadeirydd bod y gwaith ar y safle wedi’i atal mewn ymateb i’r pryderon ynghylch archeoleg ond cynghorodd y swyddogion bod Heneb, yr Ymddiriedolaeth ar gyfer Archeoleg Cymreig, wedi cadarnhau bod yr adroddiadau ddaeth i law yn eu bodloni, ac nad oedden nhw wedi canfod mesurau lliniaru archeolegol pellach oedd angen eu cynnwys fel rhan o’r cais cynllunio. Mynegodd un Aelod siom bod gwaith symud pridd sylweddol wedi digwydd ar safle mor sensitif heb ofyn am ganiatâd; roedd yr amodau ychwanegol oedd wedi’u sicrhau i’w croesawu’n fawr.

Yn dilyn cynnig gan y Cynghorydd Clements wedi’i eilio gan Dr Heath-Davies, cynigiwyd dirprwyo’r cais a’r Asesiad Priodol i’w cymeradwyo, yn ddibynnol ar gytundeb wrth CNC ac yn amodol ar gymeradwyo’r Datganiad Seilwaith Gwyrdd, a’r amodau oedd wedi’u gosod allan yn yr adroddiad. Cafodd hwn ei gario.

**Penderfyniad: Bod y cais yn cael ei ddirprwyo i’w gymeradwyo i Gyfarwyddwr Creu Lleoedd, Dadgarboneiddio ac Ymgysylltu yn amodol ar dderbyn ymateb ffurfiol wrth Gyfoeth Naturiol Cymru o ran Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd, cymeradwyo Datganiad Seilwaith Gwyrdd ac yn ddibynnol ar amodau yn ymwneud ag amseriad y datblygiad, yn unol â datganiadau a chynlluniau wedi’u cymeradwyo, cyflwyno Cynllun Rheoli Silt, plannu a thirweddu a gwaredu ac ail-blannu ar hyd y ffordd gludo. Cytunwyd hefyd i ddirprwyo cwblhau’r Asesiad Priodol.**

(c) Cyfeirnod: NP/24/0081/FUL
Ymgeisydd: Trewern Farms Ltd
Cynnig: Cais ôl-weithredol ar gyfer adeilad lles amaethyddol
Lleoliad: Fferm Trewern, Felindre Farchog, Crymych, Sir Benfro, SA41 3XE

Adroddwyd bod hwn yn gais ôl-weithredol ar gyfer adeilad amaethyddol a oedd yn rhan o gasgliad ehangach o adeiladau a oeddent hefyd yn destun Apêl Gorfodaeth Cynllunio yn dilyn Rhybudd Gorfodaeth a gyflwynwyd yn 2018 oedd wedi'i ddal yn ôl gan PEDW (Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru).

Roedd y cais hwn yn cael ei ystyried gan y Pwyllgor Rheoli Datblygu gan fod Cyngor Cymuned Nanhyfer wedi gwrthwynebu'r cais, yn groes i argymhelliad y swyddogion i'w gymeradwyo.

Roedd agosrwydd y safle i Ardal Gadwraeth Arbennig Coetiroedd Gogledd Sir Benfro (AGA) a ddisgrifir fel hen goedlan dderw mes digoes, ynghyd ag amrywiaeth eithriadol o gen epiffytig, yn golygu bod cynigion i gynyddu nifer y gwartheg yn gofyn am asesiad priodol o dan y Rheoliadau Cynefinoedd i asesu effeithiau posib. Yn yr achos hwn y cynnig oedd codi adeilad lles amaethyddol a ddisgrifir ar y safle fel lle i wartheg fwrw'u lloi am y byddai'n rhoi mwy o ofod iddyn nhw ond na fyddai'n cynyddu nifer y gwartheg ar y safle. Roedd dyluniad a lleoliad yr adeilad yn cael ei ystyried yn dderbyniol oddi fewn i'r casgliad ehangach o adeiladau.

Yn amodol ar amodau yn ymwneud â thirweddu a rheoli'r mwyafswm rhif y fuches, i sicrhau na fyddai effeithiau amonia ychwanegol ar yr AGA, roedd y cynnig yn cael ei ystyried yn dderbyniol ac yn cydymffurfio â gofynion polisïau cynllunio Lleol a Chenedlaethol. Ystyriwyd bod y ddarpariaeth o gynllun goleuo hefyd yn cydymffurfio â hyrwyddiad bioamrywiaeth priodol yn unol â gofynion Polisi Cynllunio Cymru Argraffiad 12 a Deddf Amgylchedd Cymru 2016.

Am nad oedd Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd wedi'i gytuno gan Gyfoeth Naturiol Cymru (CNC), yr argymhelliad oedd dirprwyo cymeradwyo i'r Swyddogion, yn amodol ar dderbyn cytundeb ffurfiol o'r asesiad hwn wrth CNC.

Yn y cyfarfod darparwyd geiriad amod ychwanegol gan Bennaeth Rheoli Datblygu i reoli maint y fuches. Nodwyd bod yna loia cyson mewn buches mor fawr ond byddai'r lloi yn cael eu symud o'r safle. Yn y cyfarfod eglurwyd yr amod hwn i eithrio lloi o dan chwe mis oed o'r cyfanswm ar y safle gan nodi y byddai cyfanswm o 960 o dda godro yn cael ei ganiatáu; y rheswm dros yr amod oedd er mwyn dangos na fyddai yna effaith ar gywirdeb yr AGA. Roedd y swyddogion yn obeithiol y byddai Cyfoeth

Naturiol Cymru (CNC) yn cytuno â'r amod ond awgrymwyd y gallai unrhyw ddiwygiadau i'r amodau gael eu dirprwyo i'r swyddogion eu cytuno.

Ychwanegodd y Cyfreithiwr, fel yn y cais blaenorol, y dylid gofyn am ddirprwyo i gwblhau'r Asesiad Priodol hefyd.

Wrth nodi hanes cymhleth cynllunio ar y safle, gofynnodd un Aelod beth fyddai effaith y cais hwn ar yr amgylchiadau apêl/gorfodaeth, ac esboniodd y swyddogion eu bod yn cydweithio gyda CNC a'r ymgeisydd i geisio rheoleiddio'r datblygiad nad oedd wedi'i awdurdodi ar y safle, ac i ddangos nad oedd yr adeiladau ychwanegol yn achosi difrod i'r AGA. Pe bai'r holl adeiladau yn derbyn caniatâd cynllunio yna fe fyddai'r camau gorfodaeth, ac o ganlyniad yr apêl yn ei erbyn yn dirwyn i ben. Nodwyd y byddai'r esboniad hwn yn ddefnyddiol i Gyngor Cymuned Nanhyfer.

Anerchwyd y Pwyllgor wedyn gan yr asiant, Wyn Harries. Diolchodd i'r swyddogion am eu hymdrechion yn ceisio datrys yr achos cymhleth hwn mewn modd a fyddai'n gwella'r amgylchedd ac a fyddai'n caniatáu ei gleientiaid i gynnal eu busnes gwerthfawr. Ychwanegodd ei fod yn barod i ateb unrhyw gwestiynau o eiddo'r Aelodau.

Wrth nodi ei bod yn siomedig fod y cais yn ôl-weithredol holodd yr Aelodau ynghylch y tirweddu arfaethedig a ph'un a fyddai coed priodol yn cael eu plannu. Esboniodd y swyddog bod amodau yn cael eu gosod ar flociau o dirweddu fel rhan o'r ceisiadau amrywiol oedd wedi'u cyflwyno er mwyn lliniaru'r olygfa o'r safle o Bentre Ifan. Cynigid cymysgedd o goed safonol a glasbrennau. Byddai cyfleoedd i leihau effaith goleuni oddi ar y safle fel cyfanwaith yn cael ei ystyried fel amod i hyrwyddo bioamrywiaeth.

Yn dilyn cynnig gan y Cynghorydd Jordan wedi'i eilio gan y Cynghorydd James, cynigiwyd bod y cais, cwblhau'r Asesiad Priodol a geiriad manwl yr amodau yn cael eu dirprwyo i'r swyddogion i'w cymeradwyo, yn amodol ar dderbyn cytundeb gan CNC, a hefyd yn amodol ar gadw yr amodau oedd wedi'u gosod allan yn yr adroddiad.

**Penderfyniad: Bod y cais a chwblhau'r Asesiad Priodol yn cael eu dirprwyo i'w cymeradwyo i'r Cyfarwyddwr Creu Lleoedd, Dadgarboneiddio ac Ymgysylltu yn amodol ar dderbyn ymateb ffurfiol gan Gyfoeth Naturiol Cymru (CNC) mewn perthynas â'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd, ac yn amodol ar amodau yn ymwneud â hyrwyddo bioamrywiaeth a thirweddu a goleuo. Roedd geiriad manwl yr amodau arfaethedig hefyd wedi'i ddirprwyo i'r Cyfarwyddwr yn amodol ar dderbyn cytundeb gan GNC.**

(d) Cyfeirnod: NP/24/0206/FUL
Ymgeisydd: Trewern Farms Ltd
Cynnig: Storfa Maethynnau a Gwaith Cysylltiedig
Lleoliad: Trewern, Felindre Farchog, Crymych, Sir Benfro, SA41 3XE

Adroddwyd bod fferm laeth Trewern, ar hyn o bryd yn cadw buches laeth o tua 960 o wartheg ar draws tua 195 hectar o dir eiddo a thir rhent. Mae’r storfa maethynnau presennol wedi’i lleoli i’r dwyrain o ganolbwynt y fferm. Mae Rheoliadau 2021 Adnoddau Dŵr (Rheolaeth Llygredd Amaethyddol (Cymru) yn ei gwneud yn ofynnol i Fferm Trewern gynyddu ei gallu storio slyri presennol o 120 diwrnod i 150 diwrnod er mwyn cydymffurfio â’r rheoliadau newydd.

Y bwriad oedd codi’r storfa maethynnau newydd i’r gogledd o brif ganolbwynt y fferm, mewn cae amaethyddol cyfagos, yn unol â Rheoliadau Storio SSAFO (silwair, slyri ac olew tanwydd amaethyddol). Roedd y tir wedi’i ddynodi yn radd 3b tir amaethyddol ansawdd canolig ac felly ni fyddai’r cynnig yn effeithio ar y tir amaethyddol gorau a mwyaf hyblyg.

Byddai’r lagŵn wedi’i lleoli mewn lleoliad ar wahân ond o fewn pellter rhesymol i’r prif glos, oedd hefyd yn cynnwys adeiladau eraill a ddefnyddid ar gyfer amcanion amaethyddol amrywiol. Adroddwyd bod lagwnau o’r math yma gan amlaf wedi’u lleoli i ffwrdd o ganolbwynt y fferm ac wedi’u gosod mewn man canolog wedi’i ddynodi ar gyfer trin slyri. Byddai’n bosib pwmpio slyri o’r brif fferm i’r safle arfaethedig gan leihau symudiadau ffordd gyda thanceri.

Roedd y datblygiad arfaethedig yn cael ei ystyried yn dderbyniol o ran lleoliad, dyluniad, mwynder a bioamrywiaeth ac felly roedd yn cydymffurfio â Pholisi Cynllunio Cymru 12 a’r Cynllun Datblygu Lleol 2 (CDLl2). Roedd yna blannu ychwanegol yn yr arfaeth er mwyn rhanguddio a lliniaru a byddai’r ¾ hectar o blannu ychwanegol yn cael ei weld fel mantais o ran bioamrywiaeth.

Adroddwyd bod agosrwydd y safle at Ardal Cadwraeth Arbennig Coetiroedd Gogledd Sir Benfro, hen goetir derw mes digoes yn cynnwys amrywiaeth eithriadol o gen epiffytig prin, wedi golygu bod rhaid asesu’r cynigion yn unol â gofynion y Rheoliadau Cynefinoedd i asesu’r effeithiau posib. Am nad oedd ymateb yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd hyd yma wedi dod i law wrth Gyfoeth Naturiol Cymru (CNC), yr argymhelliad oedd dirprwyo’r argymhelliad i Swyddogion, yn amodol ar dderbyn cytundeb CNC ynghylch yr asesiad.

Yn unol â’r cais blaenorol cynghorodd y Cyfreithiwr y dylid sicrhau dirprwyo i gwblhau’r Asesiad Priodol hefyd.

Anerchwyd y Pwyllgor gan yr asiant, Wyn Harries, wedyn. Esboniodd bod y lleoliad wedi’i ddewis fel y safle gorau posib o ystyried anghenion gweithredu’r fferm, yn ogystal â’r lleoliad gorau i ddiogelu eiddo a choedwig Tŷ Canol. Roedd maetholion yn cael eu pwmpio i’r lagŵn yn ystod y cyfnod clo trwy ddefnyddio pwmp â chynllun wmbilig heb fod angen symudiadau cerbydau ychwanegol. Roedd capasiti’r storfa slyri oedd ei angen ar gyfer y fferm wedi’i bennu trwy ddefnyddio cyfrifiannell Cyfoeth Naturiol Cymru. Roedd y cyfaint oedd ar gael yn y storfa bresennol wedi’i dynnu oddi wrth y cyfaint cyfan er mwyn canfod y cyfaint fyddai ei angen ar gyfer y storfa newydd.

Mewn ymateb i gwestiynau gan yr Aelodau cynghorodd Mr Harries bod lleoliadau eraill wedi’u hystyried ond y bydden nhw wedi amharu ar y cynigion tirweddu ar y fferm ac roedden nhw’n nes at Dŷ Canol. Fyddai pen uchaf y bwnd ddim yn uwch na’r clawdd, ac felly ni fyddai i’w weld o’r ffordd a byddai’r effaith o Garn Ingli yn fawr ddim. Eglurodd y byddai cynnwys y storfa bresennol yn cael ei gludo mewn tanceri i gaeau mwy pellennig fel y gwnaed ar hyn o bryd.

Ychwanegodd y swyddogion er bod y tir ar godiad roedd mewn pant naturiol ac y byddai hyn ynghyd â’r rhanguddio arfaethedig, a’r clawdd cyfredol, yn lleihau unrhyw effaith gweledol.

Yn dilyn cynnig gan y Cynghorydd Jordan wedi’i eilio gan y Cynghorydd Williams, cynigiwyd y dylai’r cais a chwblhau’r Asesiad Priodol gael eu neilltuo i’r swyddogion i’w cymeradwyo, yn amodol ar gytundeb CNC yn ogystal â’r amodau oedd wedi’u gosod allan yn yr adroddiad.

**Penderfyniad: Bod y cais a chwblhau’r Asesiad Priodol yn cael eu neilltuo i’w cymeradwyo i’r Cyfarwyddwr Creu Lleoedd, Dadgarboneiddio ac Ymgysylltu yn amodol ar dderbyn ymateb ffurfiol gan Gyfoeth Naturiol Cymru (CNC) mewn perthynas ag Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd, ac yn amodol ar amodau yn ymwneud ag amseru’r datblygiad, yn unol â dogfennau a chynlluniau wedi’u cymeradwyo, goleuo a thirweddu.**

[Cafodd y cyfarfod ei ohirio rhwng 11.35 a 11.40am. Ymunodd y Cynghorydd Alderman â’r cyfarfod yn ystod y gohiriad.]

(e) Cyfeirnod: NP/24/0119/MOD
Ymgeisydd: Mr D Madge
Cynnig: Addasiad o atodlen 2 (tai fforddiadwy) yn ymwneud â Chytundeb Adran 106 - NP/18/0488/OUT
Lleoliad: Tir oddi ar Heol Non ac i'r dwyrain o Ysgol Gynradd Dewi, Tyddewi, Sir Benfro, SA62 6NX

Adroddwyd bod y cais yn gofyn am addasu cytundeb cyfreithiol Adran 106 yn ymwneud â safle tai yn Nhyddewi ar gyfer 11 annedd. Roedd y cytundeb cyfreithiol presennol yn gofyn am ofynion cynllunio o gyfraniad tuag at ardal chwarae gyfagos a adwaenid fel Ardal Chwarae Stryd Newydd, yn ogystal â darpariaeth uned tŷ fforddiadwy ar y safle i gael ei throsglwyddo i Landlord Cymdeithasol Cofrestredig (LCC).

Roedd y cais yn chwennych diwygio'r ddarpariaeth o'r elfen tŷ fforddiadwy ar y safle i ddarpariaeth oddi ar y safle ar ffurf cyfraniad ariannol tuag at dai fforddiadwy. Gwnaed y cais hwn ar y sail fod yr ymgeisydd wedi cysylltu â phob LCC perthnasol oedd yn gweithredu yn yr ardal a chael arddeall nad oedden nhw'n dymuno cymryd gofal o'r uned o dŷ fforddiadwy perthnasol fel roedd yn wreiddiol ofynnol oddi fewn i'r cytundeb cyfreithiol gwreiddiol.

Ar ôl ystyried y dystiolaeth a gyflwynwyd ystyriai'r swyddogion y byddai addasiad i gytuno ar gyfraniad ariannol tuag at dŷ fforddiadwy oddi ar y safle yn hytrach na'r ddarpariaeth tŷ fforddiadwy ar y safle yn y cyd-destun hwn yn dal i gynrychioli pwrpas cynllunio, ac felly argymhellwyd y dylid cymeradwyo'r addasiad hwn.

Roedd rhai Aelodau yn pryderu na fyddai'r uned fforddiadwy yn cael ei darparu ar y safle bellach ac roedden nhw am wybod pam na fyddai hynny. Sicrhaodd y swyddogion fod telerau'r Cyfarwyddyd Cynllunio Ychwanegol Tai Fforddiadwy yn nodi fod blaenoriaeth yn cael ei roi ar wario arian a neilltuwyd mewn cymuned oddi fewn y gymuned honno, a'r gobaith oedd y byddai yna gyfle i adran dai Cyngor Sir Penfro i wario'r cyfraniad ariannol ar eiddo oddi fewn i Dyddewi. Roedden nhw'n cynghori mai am resymau rheoli roedd y LCC yn amharod i gymryd gofal o'r uned am fod gan y fflat ardd oedd yn cael ei rhannu â fflat ar y farchnad agored. Ychwanegodd y Rheolwr Rheoli Datblygu bod yr Awdurdod wedi dysgu gwersi wrth ddelio â'r cais.

Yn dilyn cynnig gan y Cynghorydd Clements wedi'i eilio gan y Cynghorydd Jordan cynigiwyd y dylai'r cais gael ei ddirprwyo i'r Prif Weithredwr, Cyfarwyddwr Creu Lleoedd, Dadgarboneiddio ac Ymgysylltu neu i'r Rheolwr Rheoli Datblygu i weini'r Cytundeb Cyfreithiol Adran 106 wedi'i addasu sy'n gysylltiedig â NP/18/0488/OUT oddi fewn tri mis i ddyddiad y cyfarfod.

**Penderfyniad: Bod y cais yn cael ei ddirprwyo i'r Prif Weithredwr, Cyfarwyddwr Creu Lleoedd, Dadgarboneiddio ac Ymgysylltu neu i'r Rheolwr Rheoli Datblygu i weini'r Cytundeb Cyfreithiol Adran 106 wedi'i addasu sy'n gysylltiedig â NP/18/0488/OUT oddi fewn tri mis i ddyddiad y cyfarfod.**

(f) Cyfeirnod: NP/24/0155/FUL
Ymgeisydd: Ms a Miss B a K Rees ac Evans
Cynnig: Newid defnydd tir dros dro i gadw sauna symudol
Lleoliad: Harbwr Saundersfoot, Saundersfoot, Sir Benfro, SA69 9HE

Adroddwyd bod y cais hwn yn gofyn am ganiatâd ar gyfer newid dros dro o ddefnydd tir i gynnwys sauna symudol yn Harbwr Saundersfoot. Byddai'r sauna wedi'i osod ar dreiler ar y llwybr cyhoeddus i'r dwyrain o faes parcio'r Harbwr - roedd tri safle posib wedi'u clustnodi ar gyfer yr adeiledd gan gymryd i ystyriaeth y llanw uchel a stormydd a allai olygu gorfodaeth i newid safle'r sauna.

Ni chafwyd sylwadau anffafriol wrth y rhai yr ymgynghorwyd â nhw cyn bwrw ati i ysgrifennu'r adroddiad. Daeth un gwrthwynebiad i law ac roedd y materion perthnasol wedi'u crybwyll yn yr adroddiad. Roedd egwyddor y datblygiad yn cael ei ystyried yn dderbyniol am fod y datblygiad arfaethedig yn cydymffurfio â pholisïau'r Cynllun Datblygu Lleol. Ni ystyrid y byddai'r sauna symudol yn achosi effaith andwyol sylweddol ar olwg yr harbwr o ystyried y byddai'n cael ei weld yng nghyd-destun y datblygiadau cyfredol oddi fewn i'r Harbwr. O'r herwydd, ystyrid bod y cynnig yn dderbyniol, a gwnaed argymhelliad i ganiatáu caniatâd cynllunio dros dro, yn amodol ar amodau.

Yn y cyfarfod adroddodd y swyddog bod tri llythyr o gefnogaeth wedi dod i law ers ysgrifennu'r adroddiad oedd yn amlinellu'r buddion iechyd a lles, cyflogaeth a chynnydd mewn cerddwyr yn y pentref. Daeth ymateb ymgynghorwyr i law hefyd, wrth yr Awdurdod Priffyrdd nad oedd yn gwrthwynebu, a'r ecolegydd cynllunio nad oedd yn gwrthwynebu cyhyd â bod cynllun hyrwyddo bioamrywiaeth yn cael ei gyflwyno; roedd hyn wedi'i gynnwys fel amod pe bai caniatâd yn cael ei roi. Roedd ymateb wedi dod i law'r bore hwnnw hefyd wrth swyddog Mynediad Cyngor Sir Penfro yn gofyn am amod ychwanegol o osod lleiafswm pellter o 1m rhwng y sauna symudol ac ymyl y llwybr. Roedd y swyddog hefyd wedi gofyn am ddiwygio amod pump fel yr oedd wedi'i osod yn ei hadroddiad i nodi ei bod yn rheidrwydd i'r ymgeiswyr gydymffurfio â'r gofynion rheoli llifogydd oedd wedi'u gosod allan, yn hytrach na nodi y byddai'n ofynnol iddyn nhw wneud hynny.

Anerchwyd y Pwyllgor wedyn gan yr ymgeiswyr, Bryony Rees a Kerry Evans. Esboniodd Ms Rees ei bod yn gweithio i Awdurdod y Parc

Cenedlaethol ac mai ei swyddogaeth oedd creu cyswllt rhwng pobl â natur. Nododd bod Saundersfoot yn nodedig fel lle i blymio i'r môr ac roedden nhw'n teimlo y byddai sauna yn ychwanegu at yr arfer gan roi cyfle i niferoedd ehangach o bobl gymryd rhan yn y gweithgaredd a manteisio ar y therapi gwres. Disgrifiodd y sauna fel buddiant iechyd fforddiadwy gan fod ymchwil wedi nodi llaweroedd o fuddiannau iechyd megis lleihau straen a phryder, lleddfu poen cyhyrau a llid a gwella cwsg yn ogystal o bosib lleihau'r tebygolrwydd o ddatblygu clefyd Alzheimer a chlefyd y galon.

Ychwanegodd Ms Evans bod yna welliannau helaeth wedi digwydd yn ardal yr harbwr dros y blynyddoedd diwethaf ac roedden nhw'n credu y byddai'r sauna yn gweddu i'r dim fel profiad twristaidd gydol y flwyddyn, ac a fyddai'n ymestyn y tymor ymwelwyr a thynnu pobl i mewn i'r pentref. Roedden nhw'n credu bod yna nifer o fuddiannau cadarnhaol i'r sauna ac roedden nhw'n awyddus i'w gyflwyno i'r gymuned.

Gofynnodd yr Aelodau nifer o gwestiynau ynghylch y defnydd o'r sauna ac fe gadarnhaodd yr ymgeiswyr y byddai'n cael ei bweru gan losgwr coed, heb unrhyw gyswllt trydan, ac y byddai rhywun yno yn ei warchod gydol yr amser y byddai mewn defnydd, ac y byddai wedi'i gloi pan na fyddai mewn defnydd. Byddai'r coed wedi'u canfod yn lleol a'r bwriad oedd trefnu cynllun plannu er mwyn gwneud pob dim yn garbon niwtral. Byddai unrhyw symud o'r treiler yn cael ei wneud yn ystod adegau tawel o'r dydd a hynny gyda chefnogaeth Awdurdod yr Harbwr pe bai hynny'n angenrheidiol. Byddai'r treiler wedi'i ddiogelu gyda chloeon olwyn a throsol tynnu. Byddai yna ardal newid oddi fewn i'r sauna ac ni fyddai angen storio coed y tu fas i'r adeiledd am fod y ffwrn yn effeithlon iawn ac yn llosgi'n lân. Ychwanegodd y swyddogion bod coed wedi'u canfod yn lleol yn cael llai o effaith carbon na choed wedi'u mewnforio o bellter am fod coed sy'n pydru yn rhyddhau carbon yn naturiol yn yr un modd ag y mae eu llosgi yn ei wneud, a byddai yna fawr ddim carbon yn cael ei rhyddhau wrth gludo'r coed. Nodwyd nad oedd CNC wedi gwrthwynebu'r elfen llosgi coed.

Roedd rhai Aelodau wedi mynegi pryder ynghylch lleoliad yr adeiledd wrth ymyl y llwybr mewn mannau prysur, yr effaith weledol ac ar fwynder ymwelwyr a hefyd y peryglon iechyd i ddefnyddwyr. Cynghorodd y swyddogion nad oedd profiad ymwelwyr na'r achos busnes yn ystyriaethau cynllunio perthnasol, a nodwyd mai'r lleoliadau arfaethedig oedd y mwyaf cynaliadwy a'r lleiaf ymwthiol yn weladwy. Gofynnwyd am ddefnydd dros dro er mwyn asesu effaith yr adeiledd o ran y perygl llifogydd ac ystyriaethau mynediad cyn y byddai unrhyw ganiatâd parhaol yn cael ei ystyried.

Cafodd yr argymhelliad i gymeradwyo ei gynnig gan y Cynghorydd Skyrme-Blackhall a'i eilio gan y Cynghorydd Jordan ac fe'i cariwyd.

**Penderfyniad: Cymeradwyo'r cais gydag amodau yn ymwneud ag amseriad y datblygiad, yn unol â dogfennau a chynlluniau wedi'u cymeradwyo, cynllun hyrwyddo bioamrywiaeth, defnydd dros dro am ddwy flynedd a chydymffurfio â mesurau lliniaru peryglon llifogydd.**

[Cyflwynodd y Cynghorydd Jordan ei ymddiheuriadau a gadawodd y cyfarfod.]

(g) Cyfeirnod: NP/23/0600/ADV
Ymgeisydd: Cyfoeth Naturiol Cymru – Mr M Bond
Cynnig: Gosod panel deunydd esboniadol a chynllun/ tirwedd/ cynefin
Lleoliad: Maes Awyr Tyddewi, Ffos y Mynach, Tyddewi, Sir Benfro, SA62 6UE

Adroddwyd bod y cais yn gofyn am ganiatâd i osod panel dehongli, ar adeiledd pren tebyg i ddarllenfa ar Faes Awyr Tyddewi. Roedd y cais wedi'i gyflwyno gerbron y Pwyllgor am fod y safle wedi'i leoli ar dir sy'n eiddo i'r Awdurdod.

Byddai'r panel wedi'i osod ar ymyl glaswelltog wedi'i leoli oddi ar y llwybr cyhoeddus oedd yn dirwyn trwy'r maes awyr, a byddai'n rhoi gwybodaeth i'r cyhoedd am y gwaith sydd ar y gweill i wella bioamrywiaeth a chynefinoedd y fan. Doedd yna ddim sylwadau gwrthwynebus wedi dod i law wrth yr ymgynghorwyr a doedd yna ddim sylwadau trydydd parti wedi dod i law. Ar y cyfan ystyriwyd na fyddai'r arwyddion arfaethedig yn cael effaith andwyol ar ddiogelwch a mwynder y cyhoedd. O'r herwydd, gwnaed argymhelliad i ganiatáu caniatâd hysbysebu gydag amodau.

Yn y cyfarfod cadarnhaodd y swyddog y byddai'r arwydd yn ddwyieithog ac er nad oedd yna ddatganiad seilwaith gwyrdd wedi dod i law, derbynnid y byddai o fuddiant i fioamrywiaeth oherwydd ei gysylltiad â'r cynllun ehangach.

Derbyniai'r aelodau ei bod yn bwysig i'r cyhoedd dderbyn gwybodaeth berthnasol ynghylch bioamrywiaeth y safle, ac mae'r modd gorau o drosglwyddo hyn oedd pan fydden nhw'n ymweld. Cafodd yr argymhelliad i gymeradwyo ei roi gerbron gan y Cynghorydd Alderman a'i eilio gan y Cynghorydd Wiggins, ac fe'i cariwyd.

**Penderfyniad: Cymeradwyo'r cais gydag amodau yn ymwneud â gwaredu o fewn pum mlynedd, yn unol â dogfennau a chynlluniau oedd wedi'u cymeradwyo a dim goleuo.**

[Gohiriwyd y cyfarfod rhwng 2.55 a 1.30pm]

[Ail-ymunodd y Cynghorydd Jordan y cyfarfod ar-lein ar gyfer ystyriaeth o'r ceisiadau canlynol.]

(h) Cyfeirnod: NP/24/0151/FUL
Ymgeisydd: Mrs Jones
Cynnig: Gwneud yr ardal eistedd y tu allan yn ardal dan do, uwchraddio'r cysgod rhag y gwynt, gosod blwch nythu adar ar y wal de dwyreiniol, a gosod gwyntyll echdynnu ar simnai wal y gogledd orllewin
Lleoliad: The Shed Wine Bar & Bistro, Porthgain, Hwlffordd, Sir Benfro, SA62 5BN

Adroddwyd bod Y Shed a'r adeilad sy'n glwm iddo, a adwaenir fel Tŷ Mawr, yn adeiladau rhestredig Gradd 2 ac yn eiddo i Awdurdod y Parc Cenedlaethol. Roedd yna gais Caniatâd Adeilad Rhestredig ar gyfer y datblygiad (NP/24/0152/LBA) hefyd gerbron y Pwyllgor y diwrnod hwnnw (Cofnod 7(i) cyfeir). Roedd llythyr o wrthwynebiad wedi dod i law ac roedd y prif bwyntiau wedi'u gosod allan yn yr adroddiad, a oedd hefyd yn delio â materion perthnasol.

Ystyrid bod y cynnig yn cynnwys gwelliannau wedi'u dylunio'n briodol ar gyfer cyfleuster oedd wedi'i hen sefydlu oddi fewn i ganol gwledig diffiniedig, ac ystyrid ei fod yn dderbyniol o ran diogelu cymeriad a golwg yr Adeilad Rhestredig a'r Ardal Gadwraeth. Yn amodol ar osod amodau priodol i reoli'r wyntyll echdynnu a'r goleuo, roedd y cynnig hefyd yn cael ei ystyried yn dderbyniol yn nhermau'r effaith posib ar fwynder a bioamrywiaeth, ac roedd y cais felly yn cael ei gymeradwyo i'w ganiatáu.

Yn y cyfarfod cynghorodd y swyddog bod yna gynlluniau diwygiedig wedi dod i law yn ystod y broses ymgeisio a oedd yn newid deunyddiau'r cysgod rhag y gwynt i bersbecs clir yn y man agosaf at y ffordd a choed gyferbyn â'r adeilad. Roedd hyn er mwyn delio â phryderon yr Awdurdod Priffyrdd ac nid oedd ganddyn nhw'r un gwrthwynebiad i'r dyluniad diwygiedig. Fodd bynnag, mewn ymateb, roedd y swyddogion wedi cynnig amod ychwanegol yn ei gwneud yn ofynnol i'r panel fod o wneuthuriad gwydr diogelwch mwy gwydn, a'r deunyddiau i'w cytuno gyda'r Awdurdod er mwyn diogelu cymeriad a golwg yr Adeilad Rhestredig a'r Ardal Gadwraeth.

Cynigiwyd yr argymhelliad i gymeradwyo, gydag amodau, gan gynnwys yr amod ychwanegol a awgrymwyd yn y cyfarfod, gan y Cynghorydd Clements, a'i eilio gan y Cynghorydd Williams, ac fe'i cariwyd.

**Penderfyniad: Cymeradwyo'r cais yn amodol ar osod amodau yn ymwneud ag amseru'r datblygiad, yn unol â'r dogfennau a'r**

**cynlluniau oedd wedi'u cymeradwyo, goleuo, system echdynnu ac allyriadau sŵn.**

(i) Cyfeirnod: NP/24/0152/LBA
Ymgeisydd: Mrs C Jones
Cynnig: Gwneud yr ardal eistedd y tu allan yn ardal dan do, uwchraddio'r cysgod rhag y gwynt, gosod blwch nythu adar ar y wal de dwyreiniol, a gosod ffan echdynnu ar simnai wal y gogledd orllewin
Lleoliad: The Shed Wine Bar & Bistro, Porthgain, Hwlffordd, Sir Benfro, SA62 5BN

Adroddwyd bod Caniatâd Adeilad Rhestredig yn cael ei chwennych ar gyfer ardal eistedd ar-oledd ar ochr de-ddwyreiniol Tŷ Mawr, hen sied fawr cadw peiriannau wedi'i chodi o gerrig, wedi'i rhestru Gradd II, ac wedi'i chodi tua 1890 ar gyfer gwaith brics Porthgain. Roedd yr ardal eistedd yn gysylltiedig â'r Shed Tea Room, adeiledd ar-oledd ar ben gorllewinol yr adeilad, a oedd yn gyfangwbl yn eiddo i Awdurdod y Parc Cenedlaethol.

Roedd ystyriaeth o'r gwaith fyddai angen caniatâd cynllunio ar ei gyfer wedi'i gynnwys fel rhan o'r cais cynllunio cynwysedig (NP/24/0151/FUL) (Cofnod 7(h) cyfeir).

Roedd y cais oddi fewn i ddarpariaeth Cyfarwyddyd Dirprwyaeth Adeilad Rhestredig a neilltuwyd i'r Awdurdod hwn gan Lywodraeth Cymru ar 25ain Gorffennaf 2012 (wedi'i ddiwygio).

Roedd y cynnig yn cael ei ystyried yn briodol o ran maint, graddfa a manylion ac yn dderbyniol o ran diogelu cymeriad hanesyddol a phensaernïol yr eiddo, o dan ddarpariaeth Nodyn Cyngor Technegol 24 ( Yr Amgylchedd Hanesyddol) yn ogystal â diogelu cymeriad a golwg yr ardal gadwraeth. O'r herwydd, roedd yn bosib cefnogi'r cais gydag amodau.

Cafodd yr argymhelliad y gellid caniatáu Caniatâd Adeilad Rhestredig ei gynnig gan y Cynghorydd Jordan, a'i eilio gan y Cynghorydd Price, ac fe'i cariwyd.

**Penderfyniad: Caniatáu Caniatâd Adeilad Rhestredig yn ddibynnol ar amodau yn ymwneud ag amseriad y datblygiad, yn unol â'r cynlluniau a'r dogfennau a gyflwynwyd a'r goleuo.**

[Cyflwynodd y Cynghorydd Williams ei ymddiheuriadau a gadawodd y cyfarfod.]

(j) Cyfeirnod: NP/24/0198/FUL
Ymgeisydd: Jet Moore
Cynnig: Adeiladu a newid defnydd yn ganolfan antur awyr agored, a stiwdio gelf a lle storio uwchben, a gwaith cysylltiedig
Lleoliad: The Old Bus Depot, Trewyddel, Aberteifi, Sir Benfro, SA43 3BW

Adroddwyd bod y datblygiad arfaethedig hwn yn cynnwys pâr o adeiladau ar safle arferai fod yn ddepo bysiau, i'w ddefnyddio fel sail i ganolfan antur awyr agored, stiwdio gelf breifat a lle storio uwchben ar y llawr cyntaf a gwaith cysylltiedig. Roedd dyluniad y cais ar gyfer y prif adeilad wedi'i ddiwygio ers y cyflwyno'r cais gwreiddiol ac roedd ymgynghoriad cyhoeddus ar y gweill ar hyn o bryd.

Roedd manylion y cais ar gael i'r Aelodau, ond doedd dim adroddiad gan swyddog wedi'i baratoi a gwnaed cais i'r Pwyllgor ymweld â'r safle cyn i'r cais gael ei ystyried yn ffurfiol yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Rheoli Datblygu.

Adroddwyd yn y cyfarfod bod yna nifer o wrthwynebiadau o du'r cyhoedd ar sail canfyddiad o gefnogaeth am fod grant wedi'i neilltuo i'r ymgeiswyr gan Gyngor Sir Penfro. Cynghorodd y swyddog nad oedd hyn yn berthnasol o ran penderfynu'r cais, ac os oedd yna unrhyw Aelodau wedi bod yn gysylltiedig â neilltuo'r grant, fe'u cynghorwyd i gael gair gyda'r Swyddog Monitro.

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Alderman, a'i eilio gan y Cynghorydd James, y dylai'r Pwyllgor ymweld â'r safle, a chafodd y cynnig ei gario.

**Penderfyniad: Y Pwyllgor i gynnal ymweliad safle cyn i'r cais gael ei drafod yn ffurfiol yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Rheoli Datblygu.**

**8. Apeliadau**

Adroddodd yr Arweinydd Tîm Rheoli Datblygu ynghylch tair apêl (yn erbyn penderfyniadau cynllunio gan yr Awdurdod) sydd ar hyn o bryd wedi'u cofrestru gyda Llywodraeth Cymru, gan fanylu ynghylch ble roedd y tri achos wedi cyrraedd o ran y broses apelio.

Adroddwyd bod yr apêl ynghylch maes gwersylla newydd ar dir ar amaethyddol a thir prysg cyfredol; cynnig i osod gwersyllfan bychan sefydlog o wyth o fodiau hunangynhwysol, yn ogystal â lleiniau tymhorol bychain gyda chyfleusterau cysylltiedig oddi fewn i adeiledd sgubor - Tir i'r de o Haroldston Hall, Haroldston West wedi'i wrthod a bod copi o adroddiad yr Arolygydd wedi'i atodi er gwybodaeth.

**Nodwyd.**

Cadarnhawyd y cofnodion hyn yn y cyfarfod o’r Pwyllgor Rheoli Datblygu a gynhaliwyd ar 7 Gorffennaf 2024 heb eu diwygio.